# PWYLLGOR CYNLLUNIO
# 3 HYDREF 2018

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mercher 3 Hydref 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Derek Butler, David Cox, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, David Evans, Veronica Gay, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd: Carol Ellis.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); Rheolwr Gwasanaeth - Strategaeth; Arweinydd Tîm - Cynllunio; Uwch Gynllunydd; Cynllunwyr; Cyfreithiwr ac Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Pwyllgor.

## 26. DATGAN CYSYLLTIADAU

Yn dilyn cyngor gan y Cyfreithiwr, datganodd y Cynghorydd Peers gysylltiad personol a rhagfarnllyd yn eitem rhif 6.1 ar y rhaglen – Cais llawn – Codi 14 annedd a gwaith cysylltiedig yn Within Cottage a Cheshire Lane, Ffordd Alltami, Bwcle, gan ei fod yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Mountain Lane. Dywedodd y byddai'n siarad am dri munud ac yna'n gadael yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais.

## 27. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd yn ystod y cyfarfod ac a oedd wedi eu hychwanegu i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

http://committeemeetings.flintshire.gov.uk/documents/s51372/Late%20Observations.pdf?LLL=0

## 28. COFNODION

Cafodd cofnodion drafft y cyfarfod ar 5 Medi 2018 eu cyflwyno a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 29. EITEMAU I'W GOHIRIO

Ni chafwyd unrhyw argymhellion gan swyddogion.

**30.** **ADRODDIADAU’R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi penderfyniadau fel y dangosir ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio sydd ynghlwm fel atodiad.

**31.** **AELODAU’R CYHOEDD A’R WASG YN BRESENNOL**

Ar ddechrau’r cyfarfod roedd 7 aelod o’r cyhoedd ac un aelod o’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 2.40am)

…………………………
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu a gellir eu gwylio drwy ymweld â’r llyfrgell gweddarlledu: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

## PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 3 HYDREF 2018

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 058229 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Llawn - Codi 14 annedd a gwaith cysylltiedig yn Within Cottage a Cheshire Lane, Ffordd Alltami, Bwcle. | Siaradodd Mr J Stones yn erbyn y cais. | **GOHIRIO** er mwyn cael rhagor o fanylion am y cynlluniau. |
| 058434 | Cyngor Cymuned Cilcain | Cais Llawn – Adnewyddu a newid defnydd safle hen siop i greu tŷ gwyliau ar osod un ystafell wely ac ardal gardd yn Swyddfa'r Post, Ffordd y Llan, Cilcain. | Siaradodd Mr G Jones yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Mr S Richards, yr ymgeisydd, o blaid y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 058669 | Cyngor Tref y Fflint | Newid defnydd o B1 defnydd swyddfa i ddefnydd C4 arfaethedig, tŷ 20 ystafell wely amlfeddiannaeth yn 64 Chester Street, y Fflint. | Siaradodd Mr M Lakhani, yr ymgeisydd, o blaid y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. At hynny, rhoddwyd caniatâd cynllunio gydag amod y byddai yna storfa finiau caeedig ar y safle. |
| 048128 | | Cais i ddileu Cytundeb Adran 52 ynghlwm i ganiatâd cynllunio 190/86 yn cyfyngu deiliadaeth annedd arfaethedig yng Ngwesty’r Plas Hafod, Hafod Road, Gwernymynydd. | | Dileu Cytundeb Adran 52 oherwydd does gan y cytundeb ddim pwrpas defnyddiol i gyfyngu ar ddeiliadaeth gan weithwyr y gwesty yn unig. |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| **APELIADAU** | | | **NODWYD** | |
| 057541 | Apêl gan Mr G Wood yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod caniatâd cynllunio i ddefnyddio 1 carafán bresennol (uned 2) ar gyfer Anheddiad Pwrpasol Dirprwy Reolwr yn Dunkasons Caravan Park, Mostyn Road, Gronant – **GWRTHODWYD** | | | |
| 057774 | Apêl gan Mr P Miltiades yn erbyn diffyg penderfyniad Cyngor Sir y Fflint o gais amlinellol i godi uned A3 (bwyd a diod) ac | | | |

| RHIF EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | adeiladu maes parcio newydd yn Swyddfa'r Post Ewlo, The Highway, Hawarden – **CANIATAWYD** | | | |